

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach: Briff y Senedd - Siopau Bach

Dydd Mercher 8 Rhagfyr 2021, 12:30 – 13:30: Zoom (ar-lein)

COFNODION

YN BRESENNOL:

Enw cyntaf	Cyfenw	Sefydliad
Janet	Finch-Saunders	Aelod o'r Senedd y Ceidwadwyr - Aberconwy
Russell	George	Aelod o'r Senedd y Ceidwadwyr - Sir Drefaldwyn
Vikki	Howells	Aelod o'r Senedd y Blaid Lafur - Cwm Cynon
Sioned	Williams	Aelod o'r Senedd Plaid Cymru - Gorllewin De Cymru
Tabitha	Walker	Actsmart
Steve	Dowling	Cymdeithas Siopau Cyfleustra
Ed	Woodall	Cymdeithas Siopau Cyfleustra
Helen	Cunningham	Sefydliad Bevan
Meryl	Halls	Cymdeithas y Llyfrwerthwyr
Andrew	Goodacre	Cymdeithas Manwerthwyr Annibynnol Prydain
Molly	Baker	Siambrau Cymru
Robin	Osterley	Charity Retail Association
Edward	Hiller	Mostyn Estates
Adrian	Roper	Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd
Sophy	Walker	Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd
Mark	Coray	Ffederasiwn Cenedlaethol Gwallt a Harddwch
Rosina	Robson	Ffederasiwn Cenedlaethol Gwallt a Harddwch

1. Croeso a chyflwyniadau

Agorodd Vikki Howells AS y cyfarfod drwy groesawu'r sawl a oedd yn bresennol a disgrifio effaith gyfredol COVID-19 ar siopau bach yn ei hetholaeth yng Nghwm Cynon.

Gofynnodd i'r sawl a oedd yn bresennol ddiolch i Janet Finch-Saunders AS am ei blynyddoedd lawer o arwain y Grŵp Trawsbleidiol a chynrychioli buddiannau siopau bach yn y Senedd.

Amlinellodd agenda'r cyfarfod a'i gobeithion i'r grŵp adeiladu ar ei weithgareddau blaenorol i ddwyn Gweinidogion Llywodraeth Cymru i gyfrif ar faterion ar gyfer siopau bach a'r Ymchwiliad Cefnogi Entrepreneuriaeth.

2. Enwebu ac ethol swyddogion

Enwebwyd Vikki Howells AS gan Russell George AS a Janet Finch-Saunders AS yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach. Etholwyd Vikki heb wrthwynebiad.

Enwebwyd Russell George AS gan Vikki Howells AS a Janet Finch-Saunders AS yn Is-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach. Etholwyd Russell heb wrthwynebiad.

Enwebwyd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra gan Vikki Howells AS a Janet Finch-Saunders AS i barhau fel ysgrifenyddiaeth i'r grŵp. Etholwyd y Gymdeithas heb wrthwynebiad.

Cadarnhawyd yr Aelodau o'r Senedd a ganlyn yn aelodau o'r Grŵp Trawsbleidiol: Sioned Williams, Janet Finch-Saunders, Mark Isherwood, Tom Giffard, Samuel Kurtz, Llyr Gruffydd a James Evans.

3. Briff y Senedd: Adferiad COVID-19, Heriau Rheoleiddio ac Anghenion Polisi

Cyflwynodd Ed Woodall ddiweddariad polisi ar gyfer y sawl a oedd yn bresennol. Amlinellodd y cyflwyniad waith ymchwil ar agweddau defnyddwyr at siopa Nadolig ac adferiad canol y ddinas o ran nifer yr ymwelwyr a gwariant. Defnyddwyr yng Nghymru sydd leiaf tebygol o bentyrru o gymharu â gwledydd a rhanbarthau eraill y DU. Mae'r farchnad lafur yn fwyfwy heriol i fanwerthwyr recriwtio oherwydd costau cyflog cynyddol.

Manylodd Ed pam y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio ardrethi busnes i gymell buddsoddiad fel sbardun i dwf economaidd. Awgrymodd Ed y dylid gwneud hyn drwy gadw ardrethi busnes fel treth yn seiliedig ar eiddo ond ail-gydbwysu baich yr ardrethi rhwng siopau brics a mortar a siopau ar-lein a gwella Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach.

Amlinellodd hefyd yr heriau rheoliadol sydd ar ddod, gan gynnwys cyfyngiadau ar leoli a hyrwyddo cynhyrchion bwyd llai iach, gweithredu cynllun dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd, a sicrhau trosglwyddiad cyfiawn i fusnes sero net.

Gwnaeth Edward Hillier sylwadau ar yr angen i fusnesau manwerthu a lletygarwch greu profiadau mwy diddorol i ddefnyddwyr ac i Lywodraeth Cymru ddarparu eglurder ar filiau ardrethi busnes o fis Ebrill 2022 i gefnogi'r gwaith o gynllunio busnes.

4. Briff y Senedd: Y Panel

Gwahoddwyd Meryl Halls (Cymdeithas y Llyfrwerthwyr) ac Andrew Goodacre (Cymdeithas Manwerthwyr Annibynnol Prydain) gan Vikki Howells AS i ymuno ag Ed a ffurfio sesiwn banel.

Dechreuodd Meryl drwy amlinellu sut roedd hybu bywiogrwydd y stryd fawr yn gofyn i fusnesau arloesi i ddarparu lleoedd 'lle gellir aros'. Mae siopau llyfrau wedi perfformio'n well na'r cyfartaledd ar gyfer y stryd fawr lle maent yn masnachu o ran amser aros ers sawl blwyddyn, gan weithredu fel gyrrwr nifer yr ymwelwyr yn fwy nag elwa o nifer yr ymwelwyr sy'n pasio'r siop.

Dywedodd Andrew fod y pandemig wedi achosi adfywiad mewn siopa lleol ond galwodd am fwy o adnoddau ymarferol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi siopau llai i leihau eu hallyriadau.

Gofynnodd Russell George AS i'r panel am eu barn ar basys COVID-19 a manwerthu. Amlinellodd y panel sut na fyddai gorchymyn pasys COVID-19 ar gyfer siopau bach yn ymarferol, drwy ei gwneud yn ofynnol i weithwyr ychwanegol wirio pasys ar adeg pan nad oes llawer o staff yn y siopau.

CYTUNWYD y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn ysgrifennu at y Gweinidog i dynnu sylw at waith cadarnhaol manwerthwyr i gynnal amgylcheddau siopa sy'n ddiogel o ran covid.

Amlinellodd Rosina Robson o'r Ffederasiwn Cenedlaethol Gwallt a Harddwch sut mae aelodau'n fwy tawel ynghylch twf yn ystod y misoedd nesaf.

5. Sylwadau'r Cadeirydd i gloi

Diolchodd Vikki Howells AS i'r panelwyr, y cyfranwyr a phawb am ddod, cyn dod â'r cyfarfod i ben.